# Camau Gweithredu

| | |
|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod:** | Is-grŵp y Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 23ain Mai 2019 | Lleoliad: | Swyddfeydd Llywodraeth Cymru<br>Rhodfa Padarn<br>Llanbadarn Fawr<br>Aberystwyth<br>SY23 3UR |

**Presennol:**

Zoe Henderson (Aelod Bwrdd a Chadeirydd CNC)
Dennis Matheson (Cymdeithas Ffermwyr Tenant)
Sara Jenkins (Menter a Busnes)
Steven Bradley (DCWW)
Creighton Harvey (Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin)
Bernard Griffiths (Undeb Amaethwyr Cymru)
Rachel Lewis-Davies (NFU Cymru)
Lorna Davis (NFU Cymru)
Stephen Marsh-Smith (Cyswllt Amgylchedd Cymru)
James Dowling (LlC)
Helen Haider (CNC)
Marc Williams (CNC)
Matt Lowe (CNC)
Sarah Hetherington (CNC)
Geraint Weber (CNC)
Meinir Wigley (CNC)
Kate Snow (United Utilities)
Liz Franks (Hafren Dyfrdwy)

**Ymddiheuriadau:**

Andrew Chambers (LlC)
Spencer Conlon (LlC)
Bob Vaughan (CNC)
Rhianne Jones (Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad)
Luke Davies (LlC)
Jamie McCoy (AHDB)
Kirsten Hughes (Hybu Cig Cymru)

| | |
|---|---|
| | Rob McCall (CNC) |
| **Hefyd yn bresennol:** | Kevin Thomas (LANTRA) eitemau 1-4 yn unig<br>Betsan John (LIC) eitemau 7-13 yn unig |

**Rhif: Eitem**

## 2. Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd Zoe Henderson bawb i'r cyfarfod a phwysleisiodd pa mor ymrwymedig oedd yr aelodau i'r gwaith o leihau llygredd amaethyddol a chodi ymwybyddiaeth. Croesawyd Liz Franks o Hafren Dyfrdwy fel aelod newydd o Is-grŵp y Fforwm Rheoli Tir Cymru. Croesawodd Zoe Kevin Thomas, LANTRA hefyd i'r cyfarfod a byddai yntau'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gwobrau Technegol yn y Cwrs Defnyddio a Thaenu Tail a Slyri Buarth Fferm yn Ddiogel.

## 3. Cyflwyniad ar "Wobrau Technegol yn y Cwrs Hyfforddi Defnyddio a Thaenu Tail a Slyri Buarth Fferm yn Ddiogel"

Mae'r cwrs hyfforddi yn agored i bob ffermwr a rheolwr tir, nid contractwyr amaethyddol yn unig. Diolchodd Kevin Thomas o LANTRA i Sarah Hetherington, Steven Bradley a Lorna Davis am eu mewnbwn i gynnwys y cwrs. Aethpwyd ar drywydd dull peilot i'r cwrs yn Lloegr ac mae bellach wedi ei drosi i'r cyd-destun Cymreig. Mae'r pecyn hyfforddi bellach ar gael ar restr hyfforddi Cyswllt Ffermio ac mae'r ffenestr ymgeisio ar agor tan ddiwedd mis Mehefin. Mae gan yr ymgeiswyr hynny sy'n gwneud cais am y cwrs hawl i gyllid o 80% trwy Cyswllt Ffermio. Bydd peilot o'r cwrs yn cael ei lansio yng Nghymru. Mae cynnwys y cwrs yn dal i gael ei addasu. Bydd pob cyfranogwr yn derbyn llyfr gwaith ac mae angen iddo/iddi ddangos ei fod/bod wedi mynychu'r cwrs ac wedi deall y cynnwys. Bydd y mynychwyr yn derbyn tystysgrif a gall contractwyr ddefnyddio hyn i ddangos i ffermwyr pan fyddant yn gweithio ar eu safle.

Bydd cynnwys y cwrs yn cwmpasu:

- Deall manteision Cynlluniau Rheoli Maetholion a Mapiau Risg
- Canlyniadau peidio â defnyddio a rheoli slyri a thail yn gywir
- Deddfwriaeth a chanllawiau sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd a systemau dŵr
- Effeithiau amgylcheddol slyri a thail a sut y gellir eu goresgyn
- Storio diogel, trafnidiaeth a diogelwch
- Iechyd a diogelwch ac ymdrin â damweiniau
- Peiriannau lledaenu
- Lleihau allyriadau amonia wrth ledaenu
- Gweithio o fewn NVZ neu gyrsiau dŵr
- Y Rheolau Ffermio Newydd ar gyfer Dŵr
- Cadw cofnodion

Yn ogystal â'r gwaith yn y dosbarth, bydd y myfyrwyr yn ymgymryd ag elfennau ymarferol ac yn edrych ar offer taenu ac ati. Dangosir enghreifftiau o arfer da a drwg. Bydd y cwrs yn cynnwys beth i'w wneud os digwydd anffawd a bydd hefyd yn cynnwys tail dofednod, llaid carthion a gweddillion treuliad anaerobig yn ogystal â thail organig. Bydd cynnwys terfynol y cwrs ar gael ymhen ychydig wythnosau a chaiff ei ddosbarthu i'r aelodau.

***AP1: Dosbarthu dogfennau llyfr gwaith a chyrsiau oddi wrth Kevin Thomas i aelodau Is-grŵp y Fforwm Rheoli Tir Cymru (Helen Haider/Marc Williams, CNC)***

## 4. Cwestiynau i Kevin Thomas, LANTRA a thrafodaeth ynghylch contractwyr

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chynnwys y cwrs a pha un ai a oedd rhanddirymiadau NVZ wedi'u cynnwys. Eglurwyd y byddai'r agwedd hon yn cael ei chynnwys yn rhan ‘rheoli maeth’ y cwrs. Holwyd a fyddai rheoli contractwyr yn cael ei osod yn y cynnwys. Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd rheoli contractwyr o reidrwydd yn atal llygredd ond y byddai cyfrifoldebau'r contractwr a'r ffermwr yn cael eu gosod yng nghynnwys y cwrs.

Dywedodd Kate Snow fod United Utilities yn hapus i hyrwyddo'r cwrs a'i ariannu yn nalgylch Afon Dyfrdwy yn Lloegr ac y byddai hi'n trafod hyn ymhellach gyda Kevin Thomas.

Dywedodd Stephen Marsh-Smith fod llygredd gwasgaredig hefyd yn broblem ac nid yn unig o ffynonellau pwynt. Eglurodd Kevin y byddai'r agwedd hon yn cael ei chynnwys dan adran ‘Storio Diogel’ y cwrs ac y byddai'n cael ei throsi'n dermau ariannol er mwyn amlygu'r budd o leihau colledion maethynnau.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn ag ychwanegiadau posibl i'r cwrs megis ychwanegu cafnau, cywasgu pridd o gerbydau ac ati. Cadarnhaodd Kevin y bydd iechyd y pridd yn cael ei ychwanegu at gynnwys y cwrs. Tynnodd Matt Lowe sylw at bwysigrwydd rheoli cerbydau a gellid, o bosib, ychwanegu hyn at elfen mapio risg y cwrs.

Roedd Rachel Lewis-Davies yn croesawu’r cwrs a thynnodd sylw at y ffaith ei fod yn ddechrau pwysig i ddatblygu dealltwriaeth ac efallai y gellid ychwanegu modiwlau ychwanegol yn y dyfodol. Codwyd mater pwysigrwydd cael digon o amser ar gyfer holi cwestiynau a rhoi atebion. Dywedodd Kevin y byddai'r peilot yn mesur faint o amser i'w ganiatáu ar gyfer cwestiynau ac atebion o fewn y cwrs ac y byddai dogfen Cwestiynau Cyffredin yn cael ei chreu. Byddai cynnwys y cwrs yn cael

ei addasu yn ôl yr angen.

Tynnodd Dennis Matheson sylw at y ffaith nad yw ffermwyr eisiau mwy o brofion gorfodol ond dywedodd y gellid gwneud y cwrs yn orfodol i gontractwyr, o bosib. Codwyd y mater a oedd ymgymryd â'r cwrs yn lles i'r cyhoedd ac y gellid talu'r rhai sy'n dilyn y cwrs er mwyn iddynt wneud hynny.

Mae Lorna Davis yn cysylltu â Kevin Thomas mewn perthynas â sut mae'r cwrs yn cyd-fynd â chydnabyddiaeth a enillir. Tynnodd Lorna sylw at y ffaith bod y cwrs yn fan cychwyn da a’i fod yn gyfle i ychwanegu modiwlau sy'n cysylltu â chydnabyddiaeth a enillir. Y bwriad gyda chydnabyddiaeth a enillir yw bod ffermwyr yn cael gwobr a rhywbeth tebyg i bwyntiau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

Cadarnhaodd Bernard Griffiths fod UAC yn hapus i gynorthwyo gyda datblygu’r cwrs peilot. Codwyd y mater nad oes data ynglŷn â ble yn union y mae slyri yn cael ei daenu ac y gellid defnyddio hwn i dargedu'r cyrsiau ac y dylid annog contractwyr a'u gweithwyr i fynychu'r cwrs.

Tynnodd Kate Snow sylw at ei phryderon ynghylch y ffaith fod contractwyr yn gymwys i daenu slyri ar ôl dilyn cwrs 3-4 awr ac y dylai fod ganddynt wybodaeth fanylach o'r maes pwnc. Holwyd a oedd cwmnïau dŵr yn ymgymryd â rhaglen hyfforddi debyg gyda'u contractwyr taenu. Mae taenu llaid carthion yn cael ei reoleiddio'n drwm dan y Rheoliadau Defnyddio Slwtsh mewn Amaethyddiaeth sy'n gwahardd defnyddio slwtsh o weithfeydd trin carthion mewn amaethyddiaeth oni bai bod gofynion penodol yn cael eu cyflawni, gan gynnwys profi'r llaid a'r pridd.

Codwyd y mater nad yw pob rheolwr tir yn deall canlyniadau arfer gwael. Dywedodd Kevin y byddai canlyniadau ehangach arferion gwael yn cael ei drafod fel rhan o’r cwrs gan gynnwys effeithiau ar boblogaethau pysgod. Awgrymwyd y gellid defnyddio astudiaethau achos i ddangos ymhellach y pwynt ynglŷn â'r canlyniadau ehangach hyn. Mae cwrs e-ddysgu wedi'i gynllunio hefyd gyda'r bwriad o godi lefelau ymwybyddiaeth a gellid ei gynnwys fel amod cyn-cwrs rhad ac am ddim.

Eglurodd Kevin Thomas fod y cwrs wedi'i gynllunio fel un ar lefel pwynt mynediad a'r awydd yw iddo fod yn ddeniadol er mwyn i ffermwyr ei fynychu a pheidio perswadio rhywun i beidio â mynychu oherwydd bod cynnwys y cwrs yn gymhleth a manwl; ond roedd yn derbyn fod angen datblygu cyrsiau pellach i gontractwyr.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â sut mae cytundeb yn cael ei lunio rhwng ffermwr a chontractwr. Mynegwyd pryderon ynghylch sefyllfa pan nad oes cytundeb ffurfiol yn bodoli am fod hyn yn dod ag ansicrwydd ynglŷn

â phwy sy'n gyfrifol a gallai arwain at lygredd.

Tynnwyd sylw at y ffaith nad yw'r diwydiant wedi cyrraedd y fan honno eto o ran bod pawb yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth cynllunio rheoli maethynnau, mapio risg a'r dechnoleg gysylltiedig. Hefyd, mae'r cwrs yn cysylltu â 'Brexit a'n Tir' a gwaith cydnabyddiaeth a enillwyd hefyd. Mae'n bosibl hefyd y bydd cyfle i glymu'r cwrs â'r ffenestr ar gyfer y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (*SPG*) nesaf.

Amcangyfrifir bod y peilot yn dechrau ymhen chwe wythnos. Dylai ymgeiswyr wneud cais erbyn diwedd mis Mehefin ac wedi iddynt gael eu cymeradwyo bydd ganddynt naw mis i gwblhau'r cwrs. Mae cost amcangyfrifedig y cwrs oddeutu £200 gyda chyllid o 80%. Bydd angen i ffermwyr gofrestru gyda Cyswllt Ffermio yn gyntaf os ydynt am ddilyn y cwrs. Ni fydd yn rhaid i ffermwyr sy'n rhan o'r peilot dalu am y cwrs a ariennir gan LIC.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â sut rydym yn sicrhau bod ffermwyr yn gwneud cais am y cwrs a defnyddio Cyswllt Ffermio a chynrychiolwyr y diwydiant o bosibl i hyrwyddo'r cwrs. Bydd Cyswllt Ffermio a LANTRA yn gwneud gwaith i sicrhau bod contractwyr y maent yn gwybod amdanynt yn cael eu targedu i ymgymryd â'r cwrs. Amlygwyd yr angen i ddarparu cyfathrebu cadarnhaol ynglŷn â'r cwrs a'r angen am amserlenni clir.

Bydd cynlluniau peilot ar gyfer y cwrs yn cael eu cynnal gyda 15 o ffermwyr/contractwyr ym mhob ardal a byddant, o bosib, yn cael eu cynnal yn Gelli Aur, Glynllifon a Phentywyn. Mae hyfforddwyr ar gyfer y cwrs yn cael eu recriwtio ar hyn o bryd ac mae tendr ar gyfer fframwaith hyfforddi wedi'i drefnu hefyd.

Codwyd y mater y dylai'r cwrs gysylltu â'r gofynion rheoleiddio newydd. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi bwydo i mewn i gynnwys y cwrs ynglŷn â'r gofynion rheoleiddio amaethyddol newydd. Cafwyd trafodaeth ynghylch a fyddai ffermwyr a fynychodd y cwrs yn cael eu hystyried yn fwy ffafriol pe bai achos o lygredd yn digwydd. Byddai dal rhaid i CNC ddilyn ei weithdrefn reoleiddio, ac efallai na fyddai mynychu'r cwrs yn ffactor wrth ystyried canlyniadau posibl, a byddai'n rhaid i'r ffermwr/contractwr ddangos ei fod wedi dilyn y Cod Ymarfer Amaethyddol Da (*CoGAP*) .

Esboniodd Kevin fod oddeutu 70% o'r cyrsiau'n cael eu mynychu, hyd yn oed pan fydd presenoldeb ffermwyr wedi'i gymeradwyo a bod nodiadau atgoffa wedi'u hanfon. Awgrymodd Kate Snow y dylid cynhyrchu fideo fel rhan o'r peilot er mwyn annog ffermwyr i gymryd rhan.

***AP2: Rhoi arweiniad i Kevin Thomas (LANTRA) ar slwtsh***

***gweddillion treuliad anaerobig a charthion a gynhyrchir mewn taflen (Kate Snow, UU)***

***AP3: Datblygu a darparu llinellau safonol er mwyn i'r aelodau hyrwyddo'r cwrs LANTRA (Kevin Thomas, LANTRA, Meinir Wigley, CNC)***

***AP4: Annog ffermwyr/contractwyr i fynychu'r cwrs LANTRA (Pawb)***

***AP5: Cadarnhau dyddiadau cau gwneud cais i dirfeddianwyr a manylion cymhwyster ar gyfer y cwrs hyfforddi (Sara Jenkins, Menter a Busnes)***

***AP6: Archwilio'r potensial o greu fideo neu debyg o'r astudiaeth beilot i'w defnyddio i annog eraill i ymgymryd â'r cwrs (Kevin Thomas, LANTRA)***

***AP7: Dosbarthu manylion y cwrs peilot i'r aelodau (Kevin Thomas, LANTRA)***

## 5. Sioe Frenhinol Cymru/Cyfathrebiadau

Esboniodd Meinir Wigley mai thema CNC ar gyfer Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yw coedwigoedd a choed. Cynhelir gweithdai gyda'r sector coedwigaeth. Bydd ffermwyr sydd wedi cael ymweliad gan Swyddog Llaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael gwahoddiad ynghyd â'r rhai hynny sy'n byw o amgylch ardaloedd y prosiect cors LIFE.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â sut y byddai Is-grŵp y Fforwm Rheoli Tir Cymru yn cymryd rhan yn y Sioe Amaethyddol Frenhinol fel y fforwm a'r hyn y byddai aelodau unigol yn ei wneud. Pwysleisiodd Meinir bwysigrwydd codi ymwybyddiaeth o'r awdurdodiadau newydd ar gyfer tynnu dŵr a'r angen i ail-gofrestru eithriadau gwastraff ar gyfer amaethyddiaeth. Cafwyd trafodaeth ynghylch y potensial i ffermwyr ail-gofrestru eu heithriadau gwastraff yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru.

Trafodwyd y potensial o ymgysylltu ag ymgeiswyr newydd yn y Sioe Frenhinol. Dywedodd Llywodraeth Cymru na fyddent yn gwneud dim yn benodol mewn perthynas â'r rheoliadau amaeth newydd yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru ond y byddent yn hyrwyddo'r ail ymgynghoriad mewn perthynas â 'Brexit a'n Tir' ac awdurdodiadau newydd (ar gyfer tynnu dŵr).

Cadarnhaodd Meinir fod y Gweinidog Lesley Griffiths wedi cael ei gwahodd i stondin CNC. Dywedodd Rachel Lewis-Davies y dylai Is-grŵp y Fforwm Rheoli Tir Cymru hefyd estyn gwahoddiad i'r Gweinidog.

Mae Cyswllt Ffermio yn hyrwyddo eu cyngor cynllunio clinigau a rheoli maethynnau yn y Sioe Frenhinol. Bydd ffermwyr sydd wedi derbyn cyngor drwy Cyswllt Ffermio yn cael eu gwahodd i'w stondin.

Awgrymodd Zoe Henderson y dylid llunio cylchlythyr Is-grŵp y Fforwm Rheoli Tir Cymru er mwyn hyrwyddo gwaith y fforwm.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â sut i ymgysylltu â ffermwyr anodd eu cyrraedd. Cododd Geraint Weber y mater fod y cwmnïau dŵr wedi gwneud rhywfaint o waith mewn perthynas â hyn trwy gyflawni gwaith â ffocws o fewn cymunedau er mwyn canfod rhwystrau i ymgysylltu. Tynnodd Lorna Davis sylw at y pwysau y mae rhai ffermwyr yn ei wynebu a dywedodd eu bod mewn cyfnod o ansicrwydd oherwydd y cyhoeddiad ynghylch y rheoliadau amaeth newydd. Dywedodd NFU Cymru ei fod wedi ymrwymo i'r argymhellion rheoleiddio yn yr Adroddiad Interim ar Lygredd Amaethyddol a'i fod yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni'r rhain.

Bydd NFU Cymru yn arddangos eu model newydd a grëwyd i ymgysylltu â ffermwyr mewn ffordd ymarferol am y cysyniad o reoli maethynnau a fydd yn dangos enghreifftiau o arfer da a drwg. Bydd gwybodaeth ar gael am ansawdd dŵr ochr yn ochr â hyn. Mae cyhoeddiadau a thagiau clust yn cael eu datblygu ac arnynt negeseuon allweddol y gellid eu cysylltu ag Is-Grŵp y Fforwm Rheoli Tir Cymru. Bydd Meinir Wigley a Lorna Davis yn bwrw ymlaen â'r syniad o eitem y gellir ei rhoi am ddim i ffermwyr yn y Sioe Frenhinol fydd yn cario negeseuon allweddol am ansawdd dŵr.

***AP8: Drafftio cylchlythyr 2-dudalen ar waith Is-grŵp y Fforwm Rheoli Tir Cymru (Helen Haider/Marc Williams, CNC)***

***AP9: Datblygu'r syniad o greu eitem am ddim y gellir ei rhoi i ffermwyr yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru (Meinir Wigley, CNC/Lorna Davis, NFU Cymru)***

***AP10: Darparu syniadau ar gyfer codi ymwybyddiaeth o waith Is-grwpiau'r Fforwm Rheoli Tir Cymru a throsglwyddo negeseuon allweddol i Meinir Wigley (Pawb)***

## 6. Diweddariad ar y Prosiect Llaeth

O 1af Mai 2019, ymwelodd swyddogion y Prosiect Llaeth â 374 o ffermydd llaeth (tua 22% o'r holl ffermydd llaeth yng Nghymru). Mae'r data o'r ymweliadau wedi ei gasglu ond nid yw pob data fferm wedi'i gofnodi ar y system gofnodi hyd yma. Y nod nawr yw ymweld â phob fferm laeth o fewn 3 blynedd gan ddefnyddio'r swyddogion ychwanegol sy'n cael eu recriwtio (cynyddu nifer y swyddogion llaeth o 8 i 12). Mae mwy o ymweliadau wedi'u cynnal yn Sir Gaerfyrddin gan fod ganddynt ddau swyddog llaeth.

Cyflwynodd Matt Lowe y data a gasglwyd o'r 259 ymweliad a gofnodwyd ar y system gofnodi. Roedd yr ystadegau'n dangos lefelau cydymffurfio ffermydd o ran capasiti storio slyri mewn perthynas â'r gofyniad storio 4 mis dan Reoliadau SSAFO, ynghyd â'r rhai hynny oedd uwchlaw ac islaw'r gofyniad cyfreithiol lleiaf. Codwyd y mater y gallai fod ffactorau eraill yn dylanwadu ar yr ystadegau, e.e. y ffermwyr hynny y mae cyfyngiadau TB yn effeithio arnynt, newidiadau mewn modelau busnes ac ati. Crybwyllwyd y fantais o gysylltu'r data â threfniadau tenantiaeth a daearyddiaeth er mwyn ychwanegu eglurder i achosion sylfaenol y lefelau cydymffurfio.

Roedd y data yn seiliedig ar yr ymatebion a roddwyd gan ffermwyr; cafwyd y data glawiad gan hydrolegwyr CNC ac er mwyn cyfrifo gallu storio defnyddiwyd y data glawiad M5 120 (ffigurau glawiad sy'n rhagfynegi faint fydd yn disgyn unwaith bob pum mlynedd dros gyfnod o bedwar mis). Nid oedd y data'n dangos unrhyw gydberthynas ymddangosiadol rhwng maint y storfa a maint y fuches. Tynnwyd sylw at y fantais o archwilio'r gydberthynas ymhellach.

Dangosodd y cyflwyniad gapasiti storio mewn perthynas ag oedran y cyfleuster storio slyri gan nodi bod storfeydd eithriedig yn fwy tebygol o beidio â chydymffurfio â gofyniad rheoliadau SSAFO ar gyfer capasiti. Roedd cyfleusterau storio slyri ar ôl 1991 yn dangos gwell cydymffurfiad ar y cyfan. Dangoswyd hefyd y llwyth maethynnau o dda byw mewn perthynas â'r terfyn 250kg/ha/N o fewn CoGAP a'r terfyn 170kg/ha/N o fewn y rheoliadau NVZ.

Bydd y ffermwyr hynny yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r prosiect yn derbyn adroddiad, er nad yw'r holl adroddiadau wedi'u hanfon allan hyd yma. Bydd Matt Lowe yn cadarnhau'n union faint o'r 374 o ffermydd llaeth yr ymwelwyd â nhw sydd wedi cael eu hadroddiadau.

Tynnodd Zoe Henderson sylw at y ffaith fod yr ystadegau ar gyfer ymweliadau'r prosiect llaeth yn bwysig iawn o ran deall lefelau cydymffurfio ond bod awydd bob amser i gael mwy o ystadegau er mwyn deall yn well ffactorau sy'n dylanwadu ar y canlyniadau.

Cytunwyd bod angen gwaith pellach ar ddata'r prosiect llaeth ar y cyd ag ystadegydd Cyfoeth Naturiol Cymru, ond dylid llunio rhywbeth yn gyflym i'w gyflwyno i'r Gweinidog er mwyn iddi ei ystyried fel tystiolaeth sydd ar gael mewn perthynas â'r rheoliadau amaeth newydd.

Cododd Bernard Griffiths fater yr adborth a gafodd gan ffermwyr mewn perthynas ag ymweliadau'r prosiect llaeth a lleisiwyd rhai pryderon ynghylch gallu'r swyddogion i gynghori ar ba welliannau sydd eu hangen ar y fferm. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y ffermwyr hynny sydd angen gwaith sylweddol yn cael eu cyfeirio at Cyswllt Ffermio am

gyngor pellach.

***AP11:Ystadegydd CNC i edrych ar y data a gasglwyd o'r prosiect llaeth er mwyn pennu unrhyw gydberthynas rhwng maint y fuches a chapasiti storio (Marc Williams, CNC)***

***AP12: Dadelfennu data strwythurau SSAFO sydd heb fod yn cydymffurfio i ardaloedd daearyddol (Matt Lowe, CNC)***

***AP13: Dosbarthu cyflwyniad ar ddiweddariad y prosiect llaeth i'r Is-grŵp unwaith y bydd wedi ei gwblhau (Helen Haider, CNC)***

***AP14: Ychwanegu esboniad/cafeat at ddata/adroddiad y prosiect llaeth (Sarah Hetherington, CNC)***

***AP15:Canfod faint o adroddiadau fferm sydd wedi eu dosbarthu i ffermwyr a rhoi adborth i aelodau (Matt Lowe, CNC)***

***AP16: Ychwanegu'r data ychwanegol o'r ymweliadau â ffermydd sydd ar ôl at yr adroddiad (Matt Lowe, CNC)***

***Cwblhau'r adroddiad a'r ystadegau ychwanegol cyn cyfarfod nesaf Is-grŵp y Fforwm Rheoli Tir Cymru ym mis Mehefin (Matt Lowe, CNC)***

## 7. Ystadegau Llygredd Amaethyddol

Ni chafwyd unrhyw gydberthynas glir â data digwyddiadau llygredd amaeth Cymru a glawiad cyfartalog. Roedd y data a gyflwynwyd yn canolbwyntio ar ardal Sir Gaerfyrddin gyda nifer yr achosion o lygredd yn deillio o gaeau a glawiad cyfartalog bob chwarter rhwng Ionawr 2010 a Rhagfyr 2018. Nid oedd yn glir a oedd cydberthynas a bydd gwaith pellach yn cael ei wneud ar y cyd â'r ystadegydd ynglŷn â hyn. Nid yw'r data'n nodi achos ac effaith ac nid yw'n dangos pryd y taenwyd y slyri.

Y rheswm cychwynnol dros ymgymryd â'r gwaith ystadegau llygredd amaeth oedd dangos unrhyw effaith y gwaith cynghori sy'n cael ei wneud. Dangosodd y model J-gromlin, a ddefnyddiwyd gan Sefydliad Schumacher mewn perthynas â'r dadansoddiad achos sylfaenol, y gallai'r sefyllfa, o ran digwyddiadau llygredd, waethygu cyn gwella. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â phwysigrwydd amlygu risg, gan ddefnyddio offer fel SCIMAP i ddangos llif, draeniad ac ati.

Dywedodd Kate Snow nad oedd United Utilities fyth wedi canfod unrhyw gydberthynas rhwng digwyddiadau llygredd a glawiad mewn perthynas â'u gwaith ar Afon Dyfrdwy oherwydd presenoldeb gormod o newidynnau.

Dangoswyd tabl gyda dadansoddiad o achosion y digwyddiadau

llygredd a dywedwyd y gellid defnyddio hyn o bosibl i benderfynu ble i ganolbwyntio cyngor. Crybwyllwyd hefyd y dylid adrodd yn ôl i swyddogion CNC ar bwysigrwydd adrodd yn gywir mewn perthynas â digwyddiadau a sut y defnyddir y data i sicrhau bod digwyddiadau yn cael eu categoreiddio'n gywir.

***AP18: Paratoi Adroddiad Ystadegau Llygredd Amaethyddol (gan gynnwys tabl o achosion) a'i ddosbarthu i'r Is-grŵp cyn ei gyhoeddi (Marc Williams, CNC)***

***AP19: Cynnwys ystadegau eraill am y sector amaeth ac eithrio llaeth (Marc Williams, CNC)***

***AP20: Cysylltu â Marc Williams gydag unrhyw geisiadau am ddadansoddiadau ystadegol ychwanegol ynghylch y data digwyddiadau llygredd amaeth (Pawb)***

***AP21: Cyfuno tabl achos digwyddiad i fathau cyffredin e.e. seilwaith, cae ac ati (Marc Williams, CNC)***

## 8. Diweddariad Rheoliadau Amaethyddol

Codwyd y mater nad yw aelodau'r Is-grŵp yn derbyn yr adborth yr hoffent ei gael gan LIC mewn perthynas â'r rheoliadau amaeth newydd a bod y cofnodion a'r diweddariadau ar gamau gweithredu o gyfarfod diwethaf y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar reoliadau amaeth a gynhaliwyd ym mis Mawrth yn dal heb eu derbyn. Bydd ADAS yn cyflwyno'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ym mis Mehefin i LIC. Ar ôl hyn, bydd ADAS yn dod i gyfarfod Is-grŵp y Fforwm Rheoli Tir Cymru yn y dyfodol i roi cyflwyniad ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Ni roddwyd unrhyw eglurhad i'r Is-grŵp mewn perthynas â'r dystiolaeth sydd ar gael ac y gellir ei chyflwyno i'r Gweinidog er mwyn iddi ei hystyried na'r llinell amser chwaith ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth. Tynnwyd sylw gan LIC mai cyfrifoldeb yr aelodau unigol yw cyflwyno eu tystiolaeth cyn gynted â phosibl i LIC. Cododd Betsan John y mater fod cyfle i aelodau'r Is-grŵp gyflwyno tystiolaeth a thrafod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol unwaith y bydd ADAS yn rhoi cyflwyniad i'r grŵp, a gobeithio y gellir cynnal hyn yng nghyfarfod mis Gorffennaf. Codwyd y mater efallai y bydd aelodau eraill o'r grŵp Gorchwyl a Gorffen ar reoliadau amaeth yn dymuno mynychu'r cyfarfod ar 8fed Gorffennaf.

Rhoddwyd diweddariad dŵr gan James Dowling ynghyd â manylion y rownd nesaf o Gynllunio Rheoli Basn Afon (*RBMP*) sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd fel rhan o ofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (*WFD*). Atgoffwyd yr is-grŵp ynglŷn â chodi ymwybyddiaeth bod angen i'r rhai hynny sy'n tynnu mwy nag 20 metr ciwbig o ddŵr y dydd wneud cais am awdurdodiad newydd.

***Cadarnhau gydag ADAS y gallant fynychu cyfarfod Is-grŵp y Fforwm Rheoli Tir Cymru ym mis Gorffennaf (Betsan John, LIC)***

## 9. Blaenoriaethau Is-Grŵp y Fforwm Rheoli Tir Cymru

Gofynnwyd i aelodau Is-grŵp y Fforwm Rheoli Tir Cymru restru beth oedd eu blaenoriaethau ar gyfer 2019 ac yna pleidleisio dros bump o'r blaenoriaethau rhestredig. Byddai'r pum eitem uchaf fyddai'n cael y mwyaf o bleidleisiau yn dod yn flaenoriaeth i'r grŵp ar gyfer 2019 ac fe'u nodwyd fel:

1) Cynyddu gwybodaeth ffermwyr am lygredd dŵr
2) Ymgysylltu â ffermwyr anodd eu cyrraedd
3) Arloesi
4) Sut mae nwyddau cyhoeddus, rheoliadau amaeth newydd a chydnabyddiaeth a enillir yn integreiddio
5) Gwella mynediad i grantiau, cael system cynllunio galluogi, sicrhau cydymffurfio deddfwriaethol a gweithdrefnau gweithredu darparwyr/ymgynghorwyr (derbyniodd pob un o'r eitemau hyn yr un nifer o bleidleisiau)

## 10. Trefniadau ar gyfer cyfarfodydd yr is-grŵp yn y dyfodol

Gallai ADAS fynychu cyfarfod Is-grŵp y Fforwm Rheoli Tir Cymru ym mis Gorffennaf i roi cyflwyniad ar yr RIA. Mae sesiwn arloesi wedi'i bwcio dros dro ar gyfer cyfarfod yr is-grŵp ym mis Mehefin.

***AP23: Rhoi diweddariad ar y daith i Catskills (Efrog Newydd) yn y cyfarfod nesaf ar 13$^{eg}$ Mehefin 2019 (Bob Vaughan, CNC)***

## 11. Cofnodion cyfarfod is-grŵp y Fforwm Rheoli Tir Cymru ar 23$^{ain}$ Mai a Phwyntiau Gweithredu heb eu datrys

Dosbarthwyd cofnodion cyfarfod yr is-grŵp diwethaf a gynhaliwyd ar 23$^{ain}$ Mai i'r aelodau. Codwyd y mater y dylai aelodau sydd ag unrhyw gamau heb eu cyflawni roi diweddariad a cheisio eu cwblhau cyn gynted â phosibl. Cyflwynwyd pwyntiau gweithredu heb eu cyflawni o gyfarfod Is-grŵp y Fforwm Rheoli Tir Cymru ym mis Mawrth ac Ebrill i'r aelodau, a hynny mewn dogfen ar wahân.

***AP24: Cyflwyno unrhyw newidiadau i gofnodion y cyfarfod diwethaf i Helen Haider erbyn 4$^{ydd}$ Mehefin (Pawb)***

***AP25: Llwytho cofnodion cyfarfod diwethaf Is-grŵp y Fforwm Rheoli Tir Cymru i dudalen we CNC (Helen Haider, CNC)***

## 12. Diweddariad ar weithgareddau dyddiadur perthnasol

Cynhelir digwyddiad Glaswelltir Cymru ar 6ed Mehefin. Ar 7fed Mehefin mae NFU Cymru yn cynnal digwyddiad Amaethyddiaeth Gynaliadwy yn Fferm Pentre, Merthyr Cynog, Aberhonddu ac mae gwahoddiad i aelodau Is-grŵp y Fforwm Rheoli Tir Cymru fynychu.

## 13. Unrhyw fater arall

Trefnwyd cyfarfod Skype er mwyn i'r aelodau drafod yr adroddiad cynnydd ar 6ed Mehefin.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y ffordd orau o gyflwyno cofnodion y cyfarfod a gofynnwyd a ellid eu byrhau i grynodeb o'r trafodaethau a'r camau gweithredu.

Cododd Dennis Matheson y mater fod yr ymgynghoriad ar ddiwygio tenantiaeth yn dal i fynd yn ei flaen.

Mae Sara Jenkins mewn trafodaethau gyda staff CNC er mwyn edrych ar ffermydd cynnal posibl ar gyfer y dalgylchoedd ail gyfran mewn perthynas â'r gwaith cynghori wedi'i dargedu.

Cynhelir ymgynghoriad WFD ar 17eg Mehefin a bydd neges ynglŷn â hyn yn cael ei dosbarthu i'r aelodau yn fuan. Ceir cyfnod ymgynghori o 6 mis.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â phwysigrwydd osgoi dyblygu rhwng y gwahanol fforymau o safbwynt y Fforwm Rheoli Dŵr Cymru (WWMF) a'r Fforwm Pysgodfeydd). Mae trafodaethau eisoes yn digwydd o fewn CNC i osgoi dyblygu.

***AP26: Meinir Wigley (CNC) i edrych ar nifer yr ymweliadau â gwefan y Fforwm Rheoli Tir Cymru a faint sy'n edrych ar y cofnodion.***

***AP27: Anfon adborth ynghylch cofnodion y cyfarfod i Helen Haider (Pawb)***

***AP28: Diweddaru map Cymru o ddalgylchoedd sy'n gweithio gydag ail rownd dalgylchoedd targed Cyswllt Ffermio (Marc Williams/Geraint Weber, CNC)***

***AP29: Trafod gyda Ceri Jones/Peter Gough, Cyfoeth Naturiol Cymru, y Fforwm WWMF a'r Fforwm Pysgodfeydd er mwyn darparu sesiynau briffio o'u cyfarfodydd i aelodau Is-grŵp y Fforwm Rheoli Tir Cymru i osgoi dyblygu (Sarah Hetherington, CNC)***

***AP30: Cadarnhau a fydd y rownd gyntaf o geisiadau bid y Cynllun***

***Rheoli Cynaliadwy (SMS) na fu'n llwyddiannus yn cael eu cynnwys yn yr ail rownd a rhoi adborth i aelodau (Sara Jenkins, Menter a Busnes)***

***AP31: Mynychu cyfarfod nesaf WWMF er mwyn tynnu sylw at waith y Fforwm Rheoli Tir Cymru (Zoe Henderson)***